Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **GŴYS A RHAGLEN** | **SUMMONS AND AGENDA** |
| **ar gyfer** | **for an** |
| **CYFARFOD BLYNYDDOL O GYNGOR SIR YNYS MÔN A OHIRWYD** | **ADJOURNED ANNUAL MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL** |
| **ar** | **on** |
| **DYDD MAWRTH 31 MAI 2022** | **TUESDAY 31 MAY 2022** |
| **am 2.00 o'r gloch** | **at 2.00 pm** |

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2. CYHOEDDIADAU**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd, Arweinydd y Cyngor neu'r Prif Weithredwr.

**3. AELODAETH Y PWYLLGOR GWAITH**

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2.7 y Cyfansoddiad, cael gwybod gan yr Arweinydd enwau'r Cynghorwyr y mae hi wedi eu dewis i fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio.

**4. CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 o Gyfansoddiad y Cyngor, penodi Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am y flwyddyn ddinesig.

**[Noder: Paragraff 3.4.12.3.1 Penodir y Cadeirydd gan y Cyngor llawn yn ei ail gyfarfod (a ohiriwyd) o'r Cyfarfod Blynyddol ar ôl i'r Arweinydd gyhoeddi pwy yw Aelodau'r Pwyllgor Gwaith (ac os oes angen mewn cyfarfodydd eraill) trwy bleidlais gudd, a Bydd Rheol Gweithdrefn 4.1.18.5 "Pleidlais a Gofnodwyd" yn cael ei hatal ar gyfer y pwrpas hwn.**

**Paragraff 3.4.12.3.2 Ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o grŵp a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith (ac eithrio mewn awdurdodau lle mae'r holl grwpiau gwleidyddol yn cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith, ac yn yr achos hwnnw, ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith)].**

**5. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO**

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau'r rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai mater i'r Cyngor ydyw i'w chytuno (fel y nodir ym Mharagraff 3.5 o'r Cyfansoddiad).

**6. RHAGLEN CYFARFODYDD ARFEROL Y CYNGOR SIR**

Cymeradwyo'r rhaglen isod o gyfarfodydd arferol y Cyngor Sir ar gyfer y flwyddyn i ddod:-

- 13 Medi 2022 - 2.00pm
- 6 Rhagfyr 2022 - 2.00pm
- 9 Mawrth 2023 - 2.00pm

- Mai 2022 - dyddiad i’w gadarnhau

## 7. TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL YN Y CYNGOR

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro ar adolygiad o drefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar Bwyllgorau yn dilyn yr Etholiad Llywodraeth Leol diweddar ar 5 Mai 2022, ac ar benodi Cynghorwyr i Bwyllgorau.

Bydd pob Pwyllgor y cyfeirir ato isod yn cyfarfod am gyfnod byr i benodi ei Gadeirydd a’i Is-Gadeirydd ei hun (ac eithrio’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a fydd wedi cael sylw dan eitem 4 uchod): -

- Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
- Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
- Pwyllgor Trwyddedu
- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (Is-Gadeirydd)

**[Noder: anfonwyd hysbysiadau ar wahân at holl Aelodau ac aelodau cyfetholedig perthnasol ar gyfer y cyfarfodydd uchod].**

## 8. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **31 MAI 2022** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL YN Y CYNGOR** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **DIRPRWY BRIF WEITHREDWR A PHENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ADOLYGU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL AR BWYLLGORAU** |

**1.0** Mae angen i'r Cyngor adolygu trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar ei Bwyllgorau bob blwyddyn.

**2.0** Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion mewn perthynas â chydbwysedd gwleidyddol, sef:

*"(a) that not all the seats on the body are allocated to the same political group;*

*(b) that the majority of the seats on the body is allocated to a particular political group if the number of persons belonging to that group is a majority of the Authority's membership;*

*(c) subject to (a) and (b) above, the number of seats on the ordinary committees of a relevant Authority which are allocated to each political group bears the same proportion to the total of all the seats on the ordinary committees of that Authority as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority; and*

*(d) subject to paragraphs (a) to (c) above, that the number of the seats on the body which are allocated to each political group bears the same proportion to the number of all the seats on that body as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority."*

**3.0** Mae'r sefyllfa o ran Aelodaeth Grwpiau yn dilyn yr etholiad ar 5 Mai 2022 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru Party of Wales | - 21 |
| Llafur Cymru | - 3 |
| Y Grŵp Annibynnol | - 4 |
| Annibynwyr Môn | - 7 (gan gynnwys un Democrat Rhyddfrydol) |

**4.0** Mae'r Matrics sydd ynghlwm yn nodi'r hawl i seddau ar bob Pwyllgor.

**5.0** Cyfanswm nifer y seddau i'w dyrannu yw 124.

**6.0** Yn amlwg, oni bai fod y cyfrifiad yn rhoi rhif cyfan o ran nifer cyffredinol y seddau a nifer y seddau ar bob pwyllgor, yna mae'n anochel y bydd y ffigyrau a roddir yn ffracsiynau ac felly ni fydd yn bosib cydymffurfio yn union. Serch hynny, mae'n rhaid sicrhau'r cydymffurfiad gorau posib yn unol â'r egwyddorion a nodir ym mharagraff 2 uchod.

**7.0** Ni all unrhyw grŵp gwleidyddol ar y Cyngor ond dyrannu'r seddau y mae'n eu derbyn o dan y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol i'w aelodau ei hun a ni all ddyrannu sedd i Gynghorydd nad yw'r aelod o'r un grŵp gwleidyddol.

**8.0** Yn unol â'r protocol rheolaeth wleidyddol (5.8 yng Nghyfansoddiad y Cyngor), ymgynghorwyd ag Arweinyddion y Grwpiau ynglŷn â'r trefniadau rheolaeth wleidyddol.

**9.0 Argymhellion:-**

(i) Gofynnir i'r cyngor gadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddau a ddyrennir i bob Grŵp o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

(ii) Bod Arweinyddion y Grwpiau yn hysbysu'r Dirprwy Brif Weithredwr a Phennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted ag y bo modd os bydd unrhyw newid o ran Aelodaeth Grwpiau ar Bwyllgorau.

Rhys H Hughes
Dirprwy Brif Weithredwr / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro
16 Mai 2022

| |
|---|
| |
| **Mai / May 2022** |

| **Balans ar y Cyngor Sir**<br>**Balance on County Council** | |
|---|---|
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | 21 |
| Llafur Cymru<br>Welsh Labour | 3 |
| Y Grwp Annibynnol | 4 |
| Annibynwyr Mon<br>Anglesey Independents | 7 |
| | |
| | 35 |

**PWYLLGORAU CRAFFU A THROSOLWG**
**SCRUTINY AND OVERVIEW COMMITTEES**

| **Pwyllgorau**<br>**Committees** | Partneriaeth<br>Partnership | Corfforaethol<br>Corporate | Cyfanswm Craffu<br>Total Scrutiny |
|---|---|---|---|
| Aelodaeth<br>Membership | 12 | 12 | 24 |
| Plaid Cymru / Party of Wales | *7.20*<br>7 | *7.20*<br>7 | *14.4*<br>14 |
| Llafur Cymru / Welsh Labour | *1.03*<br>1 | *1.03*<br>1 | *2.1*<br>2 |
| Y Grwp Annibynnol | *1.37*<br>1 | *1.37*<br>1 | *2.7*<br>2 |
| Annibynwyr Mon / Anglesey Independents | *2.40*<br>3 | *2.40*<br>3 | *4.8*<br>6 |
| | *0*<br>0 | *0*<br>0 | *0*<br>0 |
| | *12*<br>12 | *12*<br>12 | *24*<br>24 |

| ALLWEDD | KEY |
|---|---|
| *Chwith uchaf, italic = hawl ffracsiynol damcaniaethol* | |
| *Top left, italic, theoretical fractional entitlement* | |
| | Dde isaf, arferol = awgrym rhif llawn |
| | Bottom right, normal = whole number suggestion |

| | **LLED-FARNWROL QUASI-JUDICIAL** | | | | | | | | **PWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR OTHER COMMITTEES OF THE COUNCIL** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwyllgorau**<br>**Committees** | Cynllunio a Gorchmynion<br>Planning and Orders | Llywodraethu ac Archwilio<br>Governance & Audit | Gwasanaethau Democrataidd<br>Democratic Services | Penodiadau<br>Appointments | Ymchwilio<br>Investigation | Disgyblu<br>Disciplinary | Apeliadau<br>Appeals | Trwyddedu<br>Licensing | CYSAG<br>SACRE | Cynllunio ar y cyd<br>Joint Planning | Tal a Graddio<br>Pay and Grading | Penodi Safonau<br>Standards Appointing | Is-Bwyllgor Indemniadau<br>Indemnities sub-Committee | Cyfanswm Eraill Total Others | **CYFANSWM LLAWN**<br>**GRAND TOTAL** |
| Aelodaeth<br>Membership | 13 | 8 | 9 | 12 | 3 | 3 | 12 | 13 | 6 | 7 | 6 | 3 | 5 | 100 | 124 |
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | *7.8*<br>8 | *4.8*<br>5 | *5.4*<br>5 | *7.2*<br>7 | *1.8*<br>2 | *1.8*<br>2 | *7.2*<br>7 | *7.8*<br>8 | *3.6*<br>4 | *4.2*<br>4 | *3.6*<br>3 | *1.8*<br>2 | *3.0*<br>3 | 60<br>60 | *74.4*<br>74 |
| Llafur<br>Labour | *1.1*<br>1 | *0.7*<br>1 | *0.8*<br>1 | *1.0*<br>1 | *0.3*<br>0 | *0.3*<br>0 | *1.0*<br>1 | *1.1*<br>1 | *0.5*<br>0 | *0.6*<br>0 | *0.5*<br>1 | *0.3*<br>0 | *0.4*<br>1 | 9<br>8 | *10.6*<br>10 |
| Grwp Annibynnol<br>Independent Group | *1.5*<br>1 | *0.9*<br>1 | *1.0*<br>1 | *1.4*<br>2 | *0.3*<br>0 | *0.3*<br>0 | *1.4*<br>1 | *1.5*<br>1 | *0.7*<br>1 | *0.8*<br>1 | *0.7*<br>1 | *0.3*<br>0 | *0.6*<br>0 | 11<br>10 | *14.2*<br>12 |
| Annibynwyr Mon<br>Anglesey Independents | *2.6*<br>3 | *1.6*<br>1 | *1.8*<br>2 | *2.4*<br>2 | *0.6*<br>1 | *0.6*<br>1 | *2.4*<br>3 | *2.6*<br>3 | *1.2*<br>1 | *1.4*<br>2 | *1.2*<br>1 | *0.6*<br>1 | *1*<br>1 | 20<br>22 | *24.8*<br>28 |
| Cyfanswm | *13*<br>13 | *8*<br>8 | *9*<br>9 | *12*<br>12 | *3*<br>3 | *3*<br>3 | *12*<br>12 | *13*<br>13 | *6*<br>6 | *7*<br>7 | *6*<br>6 | *3*<br>3 | *5*<br>5 | *100*<br>100 | *124*<br>124 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **31 Mai 2022** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cynrychiolaeth ar Gyrff Allanol** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **DIRPRWY BRIF WEITHREDWR/ Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd INTERIM** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Penderfynu cynrychiolaeth y Cyngor ar Gyrff Allanol** |

**1) Rhagarweiniad**

Mae penodi Aelodau i wasanaethu ar gyrff allanol yn swyddogaeth Dewis Lleol o dan Reoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 fel y cawsant eu diwygio.

Mae Adran 5.8 o'r Cyfansoddiad - (Protocolau Rheolaeth Wleidyddol) - yn nodi'r trefniadau ar gyfer penodiadau i gyrff allanol.

Yn sylfaenol, mae dau gategori o benodiadau. Y categori cyntaf yw'r penodiadau a wneir gan y Cyngor (Atodiad 1 - mae rhai penodiadau yn cael eu gwneud ar sail cydbwysedd gwleidyddol a nodir hyn yn yr atodlen). Yr ail gategori yw penodiadau i gyrff allanol y mae'n rhaid bod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith i wasanaethu arnynt - gwneir y penodiadau hyn gan yr Arweinydd dan awdurdod dirprwyedig. (Atodiad 2). Mae yna hefyd rolau eraill sy'n cynrychioli diddordebau a meysydd cyfrifoldebau penodol, megis y maes pobl ifanc. Disgrifir y rhain yn rolau Aelodau Hyrwyddol (a elwir weithiau yn Aelodau Arweiniol) ac fe'u rhestrir o dan y penodiadau a wneir gan yr Arweinydd. (Gweler Atodiad 2).

Fel arfer bydd y penodiad i gyrff allanol am gyfnod o bum mlynedd hyd at ddyddiad yr etholiad llywodraeth leol nesaf ym mis Mai 2027 ac yn amodol ar adolygiad blynyddol gan y Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith [Gweler Adran 5.8.4.2 y Cyfansoddiad]. Bydd Aelodau yn nodi bod amlder y cyfarfodydd yn amrywio ac y cynhelir rhai cyfarfodydd o leiaf bob chwarter.

**2) Materion Eraill syn cael sylw yn yr adroddiad hwn**

**Cyrff Allanol Lleol:**

Mewn perthynas ag unrhyw gorff allanol y mae ei weithgareddau wedi eu cyfyngu i'r ward, bydd Cynghorydd(wyr) y ward berthnasol fel arfer yn cytuno a phenodi'r cynrychiolydd rhwng ei gilydd.

Mae'r protocol wardiau amlaelod a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym Mawrth 2013, (sydd ar gael ar wefan y Cyngor) yn cynnwys arweiniad ar ymgysylltiad Aelodau gyda grwpiau cynrychiadol lleol e.e. cyfarfodydd cyngor cymuned, fforymau lleol ac ati

**Llywodraethwyr ysgolion**

Os wedi eu hailethol yn yr etholiad lleol ym mis Mai 2022, bydd Aelodau Etholedig y Cyngor yn parhau fel cynrychiolwyr Awdurdod Lleol ar gyrff llywodraethu ysgolion hyd at 31 Awst 2022, gan gynnwys penodiadau i gyrff llywodraethu Cysgodol. Bydd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yn mynd i'r afael â'r mater hwn mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grwp gan ystyried maint cyffredinol y Cyngor. Bydd penodiadau newydd yn dod i rym o 1 Medi, 2022.

**Ymgynghori gyda'r Arweinydd a'r Arweinyddion Grŵp**

Rhannwyd y rhestr sydd ynghlwm o gyrff allanol lle mae angen perderfyniad gan y Cyngor gyda'r Arweinydd a'r Arweinyddion Grŵp cyn i'r Cyngor ei chadarnhau yn ei gyfarfod a ohiriwyd ar 31 Mai.

## 3) Argymhellion

1. Bod y Cyngor yn penderfynu ar yr Aelod (au) a fydd yn ei gynrychioli ar y cyrff allanol a restrir yn Atodiad 1 yn unig.

2. Os bydd angen gwneud newidiadau yn y dyfodol i gynrychiolaeth y Cyngor ar gyrff allanol, bod awdurdod yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr wneud hynny mewn ymgynghoriad gydag Arweinyddion y Grwpiau.

3. Mewn perthynas â chynrychiolaeth y Cyngor ar gyrff llywodraethu ysgolion, bod awdurdod yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc wneud penodiadau o'r fath mewn ymgynghoriad gydag Arweinyddion y Grwpiau.

**Dirprwy Brif Weithredwr / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Interim**
**25ain Fai 2022.**

# ATODIAD 1

**CYRFF ALLANOL, CYD BWYLLGORAU A PHARTNERIAETHAU**

**CYNRYCHIOLAETH I'W BENDERFYNU A'I GADARNHAU GAN Y CYNGOR LLAWN**

| Rhif | Teitl | Nifer yr Aelodau sydd eu hangen | Enwau'r Cynrychiolydd (wyr) |
|---|---|---|---|
| 1. | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (*3 aelod i'w penodi tan yr Etholiad Awdurdod Lleol nesaf* ***** | 3 | Jeff Evans, Dylan Rees, Trefor Lloyd Hughes, MBE |
| 2. | Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru *(2 aelod o'r 3 uchod)* | 2 | |
| 3. | Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru *(yr aelod sydd ar ôl)* | 1 | |
| 4. | Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru (Pwyllgor Lleol Ynys Môn) *(3 aelod i wasanaethu ar Bwyllgor Lleol Ynys Môn tan yr Etholiad Awdurdod Lleol nesaf)* ****** | 3 | Non Dafydd, Jeff Evans, Trefor Lloyd Hughes, MBE |
| 5. | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (*Arweinydd a Dirprwy Arweinydd)* | 2 | Llinos Medi, Carwyn Jones |
| 6. | Grŵp Cydranddeiliaid Safle Wylfa (*7 aelod yn cynnwys yr aelodau lleol yn Wardiau Talybolion a Thwrcelyn ac 1 aelod o'r Awdurdod).* | 7 (Aelodau Lleol + 1 Aelod arall) | Jackie Lewis, Llinos Medi, Llio Owen, Aled M. Jones, Derek Owen, Liz Wood a Gwilym O. Jones |
| 7. | Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE | 5 | Gary Pritchard, Paul Ellis, Dafydd Rhys Thomas, Pip O' Neill, John I. Jones |
| 8. | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru *(Gall fod am y flwyddyn ddinesig ond y mae'n arferol er mwyn dilyniant i'r penodiadau gael eu gwneud tan yr Etholiad Awdurdod Lleol nesaf)*. ******* | 1 | Non Dafydd |
| 9. | CAB Ynys Môn | 1 | Alun Roberts |
| 10. | Medrwn Môn *(Sylwedydd heb bleidlais)* | 1 | Llinos Medi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11. | Grŵp Mynediad Ynys Môn | 1 | Liz Wood |
| 12. | Ymddiriedolaeth Addysgol Owen Lloyd Penrhoslligwy (76) *(aelod lleol)* | 1 | Margaret M. Roberts |
| 13. | Cwmni Frân Wen *(Sylwedydd)* | 1 | Gary Pritchard |
| 14. | Panel Mabwysiadu Gwynedd a Môn | 1 | Alun Roberts |
| 15. | Panel Maethu | 1 | Gary Pritchard |
| 16. | Fforwm Cyngor Taleithiol Cymru (CLLC/WLGA) *(hawl i 2 aelod gydag un ohonynt yn Ddeilydd Portffolio Adnoddau Dynol)* | 1 | Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| 17. | Partneriaeth Cronfa Ddatblygu Cynaliadwy | 1 | Carwyn Jones |
| 18. | Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol *(aelodaeth yn ôl cydbwysedd gwleidyddol?)* | 5 | Jeff Evans, Gwilym O. Jones, Alun Mummery, Jackie Lewis, Keith Roberts |
| 19. | Fforwm Iaith Môn (i gynnwys yr Aelod Portffolio dros yr Iaith Gymraeg) | 4 | Ieuan Williams, Llinos Medi, Gwilym O. Jones, Arfon Wyn |
| 20. | Pwyllgor Safonau | 2 | Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dafydd Roberts |

*** Mae gofynion cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i'r penodiadau hyn**
**** Mae'r Rheoliadau yn awr yn caniatáu hyd at 2 aelod heb eu hethol i gynrychioli'r Awdurdod**
***** Mae'r Panel yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol ar draws y rhanbarth. Mae cynrychiolydd Ynys Môn i ddod o Grwp Plaid Cymru**

# ATODIAD 2

**CYRFF ALLANOL, CYD BWYLLGORAU A PHARTNERIAETHAU**

**CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL I'W BENDERFYNU GAN ARWEINYDD Y CYNGOR :**

| **Rhif.** | **Teitl** | **Nifer yr Aelodau sydd eu hangen** | **Enwau'r Cynrychiolydd (wyr)** |
|---|---|---|---|
| 1. | Pwyllgor Cronfa Bensiwn Gwynedd (Y Pwyllgor Pensiynau) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Robin Williams |
| 2. | Menter Môn *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Carwyn Jones |
| 3. | Llys Llywodraethwyr, Prifysgol Bangor *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Ieuan Williams |
| 4. | Grŵp Llandrillo/Menai (y cyn Goleg Menai) *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Ieuan Williams |
| 5. | Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol A.H.N.E. Ynys Môn *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Carwyn Jones |
| 6. | Cydbwyllgor Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Dafydd Rhys Thomas |
| 7. | Cydbwyllgor GwE *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Ieuan Williams |
| 8. | Cydbwyllgor Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru *(2 Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 2 | Dafydd Rhys Thomas, Nicola Roberts |
| 9. | Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith a'r Prif Swyddog Datblygu Twristiaeth)* | 1 | Carwyn Jones |
| 10. | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith fel Aelod arweiniol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc)* | 1 | Gary Pritchard |
| 11. | Bwrdd Aelod Consortiwm Awdurdodau Lleol yng Nghymru (CLAW) | 1 | Dafydd Rhys Thomas |
| 12. | Grŵp Llywio Adolygu Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Dafydd Rhys Thomas |
| 13. | Cymdeithas Tai Gogledd Cymru *(Aelod o'r Pwyllgor Gwaith sy'n gwasanaethu fel Aelod Cyfetholedig o'r Bwrdd* | 1 | Alun Mummery |
| 14. | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Rhan 9 Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014) *(Aelod Portffolio)* | 1 | Gary Pritchard, Alun Roberts |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15. | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (*Yr Arweinydd gyda'r Pennaeth Datblygu Economaidd fel ymgynghorydd).* | 1 | Llinos Medi |
| 16. | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Môn a Gwynedd) (*Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr)* | 1 | Llinos Medi |
| 17. | Grwp Cyfeirio Cydranddeiliad Betsi Cadwaladr *(Aelod Portffolio)* | 1 | Alun Roberts |
| 18. | Fforwm Cyngor Taleithiol Cymru (CLLC/WLGA) *(Aelod Portffolio Adnoddau Dynol)* | 1 | Robin Williams |
| 19. | Sioe Môn | 1 | Dafydd Roberts |
| 20. | Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Ynys Môn a Gwynedd | 1 | Alun Mummery |
| 21. | Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru | 1 | Llinos Medi |
| 22. | Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru | 1 | Alun Mummery |
| 23. | Partneriaeth Cyrchfan Môn (Twristiaeth) | 1 | Carwyn Jones |
| 24. | Fforwm Iaith Môn *(Yr Aelod Portffolio dros yr Iaith Gymraeg)* | 1 | Ieuan Williams |
| 25. | Ymddiriedolaeth yr Harbwr, Caernarfon | 1 | Dafydd Rhys Thomas |

# PENCAMPWYR

| | | | **Enw'r Sawl a Enwebwyd yn Bencampwr** |
|---|---|---|---|
| 26. | Pencampwr Pobl Hŷn | 1 | Gwilym O. Jones |
| 27. | Pencampwr Gofalwyr | 1 | Trefor Lloyd Hughes, MBE |
| 28. | Aelod Arweiniol/Pencampwr ar Gyfer Diogelu Oedolion | 1 | Alun Roberts |
| 29. | Pencampwr Plant a Phobl Ifanc | 1 | Llio Angharad Owen |
| 30. | Pencampwr Lluoedd Arfog | 1 | Glyn Haynes |
| 31. | Pencampwr Cydraddoldeb | 1 | Llions Medi |
| 32. | Pencampwr Amrywiaeth | 1 | Nicola Roberts |
| 33. | Pencampwr Sgriwtini (*penodiad bob yn ail rhwng cadeiryddion y 2 bwyllgor sgriwtini)* | 1 | |
| 34. | Pencampwr Aelodau | 1 | Dylan Rees |
| 35. | Pencampwr Plant mewn Gofal | 1 | Arfon Wyn |
| 36. | Pencampwr Newid Hinsawdd *(penodiad wedi ei wneud yn flaenorol gan y Pwyllgor Gwaith)* | 1 | Geraint Bebb |

This page is intentionally left blank